

Polisi Tâl Ychwanegol y Farchnad

Cyflwyniad

Mae Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i egwyddorion cyflog cyfartal am waith o werth cyfartal. Fodd bynnag, cydnabyddir efallai nad yw'r telerau cyflogi cyffredinol a bennir gan system gyflogau a graddfeydd y Brifysgol, ar adegau, yn gyson â thelerau cyflogi a gynigir ar gyfer swyddi tebyg yn y farchnad lafur ehangach, ac y gallai hyn arwain at drafferthion gyda recriwtio a dal gafael ar staff. Dan y cyfryw amgylchiadau, lle bo angen busnes clir, wedi'i gefnogi gan ddata gwrthrychol o'r farchnad, a lle mae dulliau eraill wedi profi'n aneffeithiol, bydd y Brifysgol yn ystyried cynnig tâl ychwanegol y farchnad yn ogystal â'r telerau cyflogi arferol ar gyfer y swydd.

Y mae'n bolisi gan y Brifysgol i wneud y cyfryw daliadau, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol, a dilyn fframwaith clir a chyson ar gyfer pennu unrhyw dâl ychwanegol y farchnad sy'n:

- sicrhau bod y Brifysgol yn cyflawni ei rhwymedigaethau dan ddeddfwriaeth cyflog cyfartal, ac yn cynnal ei fframweithiau cyflog a graddfeydd cyffredinol
- caniatáu i ychwanegiadau'r farchnad gael eu hystyried dim ond lle bo angen busnes clir ac amlwg yn bodoli
- sicrhau yr edrychir yn llawn ar faterion eraill, nad yw'n dâl, cyn ystyried tâl ychwanegol y farchnad
- caniatáu taliadau ychwanegol y farchnad pan fo asesiad gwrthrychol o dystiolaeth briodol yn cefnogi'r dull hwn, a chofnodi'r sail resymegol
- nodi'r broses drwy'r hyn yr ystyrir y cyfryw achosion, a'r amodau a fydd yn berthnasol
- gofyn i holl daliadau ychwanegol y farchnad gael eu hadolygu'n rheolaidd, a'u gwirio neu eu diddymu lle bo angen
- cynnwys proses i'r holl daliadau gael eu monitro, sydd hefyd yn sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys mewn archwiliadau cyflog cyfartal.

Sgôp

Mae'r polisi a'r dull gweithredu hwn yn cynnwys holl ddarpar staff a staff presennol y Brifysgol.

Yn ogystal â thaliadau ychwanegol sy'n cael eu cynnwys gan y polisi hwn, gellir penodi unigolion hefyd uwchben isafswm yr ystod cyflog (y pwynt cychwyn arferol wrth benodi), os oes ganddynt sgiliau a phrofiad perthnasol. Neu, pan fyddant yn y swydd, gallent symud ynghynt drwy raddfeydd, neu dderbyn tâl cyfrannu i gydnabod perfformiad eithriadol. Mae'r rhain yn rhan o'r polisïau penodi a gwobrwyo a chydabod arferol, ac nid ydynt wedi eu cynnwys gan y polisi hwn. Yr un modd, ni fyddai pecynnau adleoli'n cael eu hystyried dan y polisi hwn.

Diffiniadau

Beth yw tâl ychwanegol y farchnad?

Tâl ychwanegol y farchnad yw ychwanegiad at gyflog a buddion eraill ar gyfer swydd unigol benodol, neu grŵp neu is-grŵp o swyddi. Caiff ei dalu pan fo cyfraddau cyflog uwch a gynigir gan gyflogwyr eraill (cyfradd y farchnad) yn rhwystro'r Brifysgol rhag gallu recriwtio neu ddal gafael ar staff ar y cyflog a nodwyd ar gyfer eu swydd drwy gydweddu/gwerthuso swyddi yn unig. Caiff y telerau cyflogi cyffredinol (cyflog sylfaenol ynghyd â'r holl fuddion eraill e.e. pensiwn, gwyliau blynyddol) eu hystyried wrth wneud cymariaethau.

Mae'r cyfryw daliadau'n berthnasol i swyddi ar sail unwaith-yn-unig (lwmp swm) neu sail dros dro, a chânt eu hadolygu o bryd i'w gilydd. Gellir cyflwyno'r ychwanegiad gyda chontractau pen agored neu contractau dros dro. Pan fydd yr angen sefydliadol neu gyfiawnhad y farchnad am yr ychwanegiad yn peidio â bod, bydd deiliad y swydd/deiliaid y swyddi yn cael eu hysbysu y rhoddir gorau i wneud y taliad.

Mathau o dâl yn gysylltiedig â'r farchnad

Mae'r Brifysgol yn gweithredu dau fath o dâl ychwanegol y farchnad, y gellir eu hystyried, os byddant yn gyfrwng rhesymol a chymesur o oresgyn materion recriwtio a dal gafael:

- Taliadau lwmp swm a wneir naill ai fel tâl unwaith-yn-unig, neu mewn sawl cam i gynorthwyo i ddenu staff i swydd benodol i ddechrau, neu i helpu i ddal gafael ar staff.
- Telir tâl ychwanegol y farchnad yn ogystal â chyflog sylfaenol yr unigolyn er mwyn dod â chyfanswm y cyflog blynyddol ar gyfer y swydd i fyny i gyfradd y farchnad. Telir hwn am gyfnod penodol. Bydd taliadau'n berthnasol lle disgwylir i amodau'r farchnad lafur, sy'n arwain at broblemau recriwtio a dal gafael, fod yn y tymor byr, a lle disgwylir i'r tâl ddiflannu neu ostwng yn y dyfodol agos, neu lle bo amodau'r farchnad lafur yn gadarnach ac ni ddisgwylir i'r angen am y tâl amrywio'n sylweddol yn y dyfodol agos.

Darpariaethau Cyffredinol

Gellir caniatáu taliadau ychwanegol y farchnad dros dro, neu ar sail lwmp swm, lle bo tystiolaeth glir bod trafferthion recriwtio a dal gafael yn cael eu hachosi oherwydd bod y gyfradd gyflog yn rhy isel, o'i gymharu â'r hyn a gynigir gan gyflogwyr eraill ar gyfer swyddi tebyg. Rhaid i Benaethiaid Colegau/Adrannau/Ysgolion ystyried yn ddigonol a gweithredu atebion di-dâl i ddal gafael ar staff cyn y caiff tâl ychwanegol y farchnad ei ystyried.

Caiff taliadau ychwanegol y farchnad eu cyfrifo fel swm arian parod penodol, a chaiff gwerth hwn fel rheol ei ystyried yn flynyddol, a gall arwain at yr ychwanegiad yn cael ei amrywio neu ei dynnu'n ôl. Caiff lefel briodol ychwanegiad ei bennu drwy gyfrifo'r gwahaniaeth rhwng cyfradd gyflog y Brifysgol (yn cynnwys gwerth unrhyw lwfansau a buddion eraill) a chyfradd y farchnad, fel y pennir gan dystiolaeth o ffynonellau

priodol. Fel rheol, defnyddir cyfradd ganolog y farchnad wrth gyfrifo taliadau ychwanegol.

Telir ychwanegiadau'r farchnad mewn cysylltiad â swyddi penodol. Felly, lle cytunir bod talu ychwanegiad y farchnad yn briodol, bydd yn berthnasol i bob swydd yr un fath, a chaiff ei dalu pro-rata i staff rhan-amser.

Pan fo gweithiwr sy'n derbyn ychwanegiad yn symud i swydd arall yn y Brifysgol nad yw'n denu'r cyfryw dâl, bydd yr ychwanegiad yn darfod o'r dyddiad y dechreuant yn y swydd newydd.

Dylai staff sy'n dymuno codi materion ynghylch cynnig, tâl neu amrywio ychwanegiad y farchnad, neu dynnu ychwanegiad y farchnad yn ôl, gysylltu â'r Adran AD yn y lle cyntaf am gyngor a/neu ddefnyddio trefn briodol y Brifysgol.

Y Drefn

Cam 1: Archwilio Problemau Recriwtio a / neu Ddal Gafael

Pan geir problemau recriwtio a / neu ddal gafael, neu fod tystiolaeth sylweddol mai dyna fydd yr achos, dylai Pennaeth yr Adran/Coleg/Ysgol berthnasol gysylltu gyda'r Dirprwy Gyfarwyddwr AD neu Uwch Swyddog AD, ac edrych ar achos(ion) y problemau, gan gofnodi eu canfyddiadau gan ddefnyddio'r ffurflen a roddir yn Atodiad 1.

Pan ddeuir i un o'r casgliadau canlynol o ganlyniad i'r archwiliad:

- ni ellir dod o hyd i broblem gyda'r broses hysbysebu na recriwtio, neu
- mae tystiolaeth yn awgrymu mai'r prif reswm dros staff yn gadael yw am fwy o gyflog (ar wahân i fel rhan o'r broses datblygu gyrfa/datblygu personol arferol), neu
- mae tystiolaeth gref yn awgrymu bod y cyfryw broblemau'n debygol o godi,

dylai Pennaeth yr Adran/Coleg/Ysgol a'r Dirprwy Gyfarwyddwr AD neu Uwch Swyddog AD drafod a ellir gwneud unrhyw welliannau drwy gynnig buddion di-dâl i ymgeiswyr, neu roi gwybod iddynt amdanynt (e.e. cynlluniau pensiwn, cyfleoedd hyfforddiant a datblygu gyrfa, cyfleusterau, mynediad at amrywiaeth o bolisïau sy'n cefnogi cydbwysedd bywyd-gwaith, y cyfle i gymryd rhan mewn ymchwil arloesol).

Os bydd dulliau di-dâl wedi profi'n aneffeithiol a bod y dystiolaeth yn awgrymu efallai nad yw'r telerau cyflogi arferol a gynigir yn ddigon cystadleuol, dylai Pennaeth yr Adran/Coleg/Ysgol, mewn trafodaeth gyda'r Dirprwy Gyfarwyddwr AD neu Uwch Swyddog AD, gasglu tystiolaeth berthnasol gan ddefnyddio adran 'Cam 1' o Atodiad 1 a chyflwyno hon i'r Adran AD. Bydd data am gyflogau allanol perthnasol yn cael eu harchwilio a'u dadansoddi er mwyn pennu a fyddai ychwanegiad y farchnad yn briodol.

Cam 2: Dadansoddi Data'r Farchnad

Mae'r Adran AD yn gyfrifol am nodi a dadansoddi sampl briodol a pherthnasol o ddata taliadau'r farchnad lafur er mwyn canfod a ellir cyfiawnhau talu ychwanegiad y farchnad. Bydd y dystiolaeth annibynnol o'r hyn y cesglir data yn amrywio, gan ddibynnu ar yr hyn sy'n berthnasol ar gyfer y swydd benodol a ystyrir. Fodd bynnag, bydd angen data o fan leiaf ddwy ffynhonnell ddibynadwy fel rheol, fel Arolygon Taliadau Blyneddol yr UCEA, Arolygon Data Annibynnol (IDS). Gellir ystyried cyfraddau diwydiant neu gytundebau undebau llafur hefyd. Caiff canlyniadau'r archwiliadau hyn eu cofnodi gan ddefnyddio adran 'Cam 2' o Atodiad 1.

Os bydd y dystiolaeth a geir yn dangos bod cyfradd y farchnad yn gyfwerth â gwerth y telerau cyflogi cyffredinol a gynigir gan y Brifysgol, neu'n is na hynny, ni fydd ychwanegiad y farchnad yn briodol a bydd y Dirprwy Gyfarwyddwr AD neu Uwch Swyddog AD yn gweithio gyda Phennaeth yr Adran i nodi problemau recriwtio neu ddal gafael eraill, a'r ffyrdd mwyaf priodol o'u goresgyn.

Pan fo tystiolaeth o ychwanegiadau tâl y farchnad yn awgrymu bod cyfradd tâl y farchnad yn llawer iawn uwch na'r telerau cyflogi a gynigir gan y Brifysgol, gall yr Adran AD argymhell defnyddio ychwanegiad y farchnad a'r cyfnod y bydd yn para yn y lle cyntaf. Gwneir argymhellion gan ddefnyddio adran 'Cam 2' o Atodiad 1.

Cam 3: Ystyried yr Achos yn Ffurfiol

Pan fo tystiolaeth a geir yng nghamau 1 a 2 y drefn hon yn dangos y gallai tâl ychwanegol y farchnad fod yn ymateb rhesymol a chymesur i drafferthion recriwtio a dal gafael, caiff yr argymhellion sy'n arwain o hynny eu hystyried yn ffurfiol gan y Cyfarwyddwr AD a'r Is-Bwyllgor Taliadau a chaiff eu penderfyniad ei gofnodi gan ddefnyddio adran 'Cam 3' o Atodiad 1.

Bydd yr Adran AD yn cadw cofnod o bob achos a ystyriwyd, yn cynnwys y sail resymegol pam y cymeradwywyd ceisiadau, y math a ddewiswyd neu a wrthodwyd.

Os bydd argymhelliad yn cael ei gymeradwyo, cynigir tâl ychwanegol y farchnad, ar ffurf:

- tâl lwmp swm, heb fod yn bensynadwy, neu
- tâl cyson yn ogystal â'r cyflog am gyfnod penodol.

Mewn achosion lle bydd y swydd yn cael ei hysbysebu, bydd yr hysbyseb yn cyfeirio at dalu tâl ychwanegol y farchnad. Bydd pob gweithiwr sydd â hawl i ychwanegiad y farchnad yn derbyn datganiad ysgrifenedig yn nodi'r ychwanegiad, am ba hyd y'i gwneir, a'r cyfnodau adolygu sy'n berthnasol.

Bydd manylion pellach a chontractau cyflogaeth yn nodi ychwanegiadau'r farchnad fel elfen ar wahân i'r cyflog, gan nodi am ba hyd y rhoddir yr ychwanegiad. Caiff ychwanegiadau eu talu drwy'r system gyflogau arferol, ond cânt eu nodi ar wahân i'r cyflog sylfaenol mewn dogfennau a chofnodion, yn cynnwys slipiau cyflog.

Tynnir Yswiriant Gwladol a threth incwm PAYE o ychwanegiadau'r farchnad ac, yn achos taliadau cyson, didyniadau pensiwn. Bydd ychwanegiadau'r farchnad yn cael eu hystyried wrth gyfrifo'r holl hawliadau statudol megis salwch, cefnogaeth mamolaeth, absenoldeb mabwysiadu a cholli gwaith. Fodd bynnag, wrth gyfrifo'r holl daliadau eraill, fel goramser, ni chaiff ychwanegiadau'r farchnad eu cynnwys.

Bydd gweithwyr sy'n derbyn ychwanegiadau'r farchnad yn parhau i symud ymlaen ar y raddfa gyflog arferol ar gyfer eu graddfa, a derbyn taliadau chwyddiant perthnasol ychwanegol ar y raddfa honno. Bydd codiadau mewn cyflog dan y trefniadau cyflogau a graddfeydd safonol yn cael eu hystyried pryd bynnag yr adolygir ychwanegiad y farchnad.

Cam Adolygu

Mae'r broses adolygu'n dilyn trefn tri cham, fel yr un a nodir uchod. Dilynr y ffurflen a geir yn Atodiad 2 bob tro y bydd ychwanegiad yn cael ei adolygu.

Fel rheol, bydd taliadau ychwanegol y farchnad yn cael eu hadolygu gan yr Is-Bwyllgor Taliadau bob blwyddyn, oni bai iddynt gael eu talu fel lwmp swm unwaith-yn-unig, ac nad oes yr un hawl cyson yn bodoli. Bryd hynny, gwneir asesiad arall o amodau'r farchnad a gofynion sefydliadol i bennu a ddylid cadw'r taliad, ei amrywio neu ei dynnu'n ôl. Rhoddir gorau i wneud taliadau ar ôl cyfnod hysbysu penodol lle bydd yr angen sefydliadol neu gyfiawnhad gan y farchnad am yr ychwanegiad yn peidio â bod. Bydd y Cyfarwyddwr AD yn gyfrifol am ddarparu'r adroddiadau a'r argymhellion.

Bydd deiliaid swyddi'n derbyn cadarnhad ysgrifenedig o ganlyniadau'r adolygiad.

Os mai canlyniad yr adolygiad blynyddol yw y bydd yr ychwanegiad yn cael ei ostwng neu ei dynnu'n ôl, bydd y gweithiwr/gweithwyr dan sylw'n cael gwybod, a lefel bresennol eu cyflog yn cael ei gwarchod am ddim mwy na 12 mis. Pan fo adolygiad yn dangos y dylid talu ychwanegiad ar gyfradd uwch y farchnad, daw'r gyfradd uwch i rym y mis yn dilyn yr adolygiad.

Os parheir i dalu ychwanegiad y farchnad, gwneir hynny am gyfnod penodedig, am flwyddyn fel rheol, a bydd unrhyw estyniad arall yn cael ei ystyried ar y dyddiad adolygu nesaf.

Monitro

Bydd data ar daliadau ychwanegol y farchnad (yn cynnwys taliadau lwmp swm) yn cael eu casglu a'u hadolygu'n flynyddol gan yr adran AD at ddibenion monitro cyfle cyfartal ac i'w cyflwyno i'r Grŵp Tasg AD. Bydd ychwanegiadau'n cael eu cynnwys hefyd mewn unrhyw archwiliadau cyflog cyfartal y mae'r Brifysgol yn eu gwneud.

Bydd gwybodaeth a gesglir at ddibenion monitro'n cael ei rhannu'n flynyddol gydag undebau cydnabyddedig y campws a cheir ymgynghori i alluogi i effeithiolrwydd y polisi hwn gael ei adolygu.